

Ymgynghoriad Cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019/20 Adroddiad Cryno

Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad cyllideb dros dro, a oedd yn amlinellu faint o arian fydd yn mynd i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru am y flwyddyn ariannol nesaf (2019/20). O dan y setliad, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn wynebu gostyngiad o 0.3% o ran ei gyllid.

Mae hyn, ynghyd â phwysau anochel y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hariannu, yn golygu bod angen i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion o fwy na £15.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unig.

Ystyriwyd cyfres o gynigion cyllideb drafft o bron i £14.7 miliwn gan y Cabinet ar 14 Tachwedd 2018 ochr yn ochr â chynnydd arfaethedig i Dreth y Cyngor o 6.95% i dalu am y diffyg sy'n weddill.

Gofynnwyd am farn trigolion a rhanddeiliaid ar y cynigion drafft dros gyfnod o 6 wythnos o **19 Tachwedd 2018 tan 11 Ionawr 2019**, gyda'r barnau a fynegwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn i'w hadrodd yn ôl i'r Aelodau etholedig, a'u hystyried ganddynt, cyn i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 gael ei chytuno mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn ym mis **Chwefror 2019**.

Mae atodiadau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn i'w gweld yn www.caerffili.gov.uk/trafodaethcaerffili

Methodoleg

Dechreuodd cyfnod helaeth o ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid cyn ac yn ystod ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion arbedion drafft. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn rhedeg **rhwng 19 Tachwedd 2018 ac 11 Ionawr 2019**. Elfennau allweddol yr ymgysylltiad oedd:

- Ymgyrch yn y cyfryngau a'r cyfryngau digidol
- Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu yn y 5 prif ganol tref
- Sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a gynhaliwyd mewn lleoliadau ar draws y fwrdeistref sirol
- Darparwyd arolwg trwy gylchlythyr y Cyngor, "Newslin", ac ar wefan y Cyngor ac ym mhob prif adeilad a llyfrgell y Cyngor
- Cyfathrebu ysgrifenedig â grwpiau rhanddeiliaid (gan gynnwys Cynghorwyr, Cynghorau Tref a Chymuned)
- Cyfarfod wyneb yn wyneb y "Panel Safbwynt" a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb ychwanegol gydag Undebau Llafur a grwpiau rhanddeiliaid eraill
 - o Cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
 - o Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu Arbennig

Amlinellir prif elfennau'r broses ymgysylltu ac ymgynghori isod. Mae rhagor o fanylion am bob elfen o'r ymgysylltiad â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid i'w gweld yn yr atodiadau.

Ymgyrch yn y Cyfryngau a'r Cyfryngau Digidol

Yn ystod y misoedd cyn lansio'r ymgynghoriad a thrwy gydol y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ar y we, yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac i hyrwyddo ac annog trigolion i gymryd rhan a dweud eu dweud yn y broses ymgynghori.

Roedd elfen allweddol o'r gweithgaredd cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori yn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol nas gwelwyd o'r blaen a'r rhesymau pam y mae'r Cyngor yn wynebu gorfod gwneud penderfyniadau ariannol mor anodd.

Amlygodd feysydd megis y pwysau ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hariannu, y rôl sylweddol (ond yn gymharol fach yn y cynllun mawr) sydd gan Dreth y Cyngor wrth ariannu gwasanaethau'r Cyngor a'r rhesymeg dros y Cyngor yn gofyn i drigolion dalu ychydig yn fwy, drwy Dreth y Cyngor, am y gwasanaethau a gânt.

Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Fideo
- Cynnwys gwefannau
- Taflen wybodaeth/ffeithlun
- Datganiadau i'r wasg
- Cyfryngau digidol gan gynnwys Facebook, Twitter a NewsOnline (gweler **Atodiad 7**)

Defnyddiwyd y rhain ac ystod o sianeli cyfathrebu eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd i atgoffa ac annog trigolion i roi eu barn.

Sesiynau Galw Heibio Cyhoeddus ac Ymgysylltu Canol y Dref

Yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod ymgynghori (20–23 Tachwedd 2018), bu aelodau'r Cabinet a swyddogion cymorth yn ymweld â phob un o'r 5 prif ganol tref ar draws y fwrdeistref sirol – Bargod, Caerffili, Coed Duon, Rhisga ac Ystrad Mynach.

Pwrrpas yr ymweliadau hyn, a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd mae llawer o bobl yn ymweld â hwy, oedd codi ymwybyddiaeth o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac annog trigolion i gymryd rhan a rhoi gwybod iddynt sut y gallent ddweud eu dweud am yr arbedion cyllidebol arfaethedig trwy ddarparu manylion am yr arolwg ar-lein a'r sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb.

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb mewn 9 lleoliad ar draws y fwrdeistref sirol rhwng 26 Tachwedd a 13 Rhagfyr 2018 fel y dangosir yn **Nhabl 1**.

Mynychwyd pob un o'r sesiynau galw heibio hyn gan aelod o'r uwch dîm rheoli, staff y timau Cyfathrebu a Chyllid Corfforaethol ac o leiaf un aelod o'r Cabinet. Rhoddwyd

cyhoeddusrwydd eang i'r sesiynau yn y lleoliadau ac ym mhrif adeiladau'r Cyngor ar draws y fwrdeistref sirol. Gofynnwyd i Gynghorwyr Lleol annog presenoldeb ac anfonwyd negeseuon atgoffa rheolaidd drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Anogwyd trigolion i ddod i mewn i sgwrsio â swyddogion ac aelodau'r Cabinet ac i ddarganfod mwy am y cynigion a rhoi adborth trwy lenwi holiadur. Roedd yr ymagwedd hon yn caniatáu rhyngweithio wyneb yn wyneb ag unigolion ac annog dadl a thrafodaeth.

Mynychodd cyfanswm o **121 o bobl** y sesiynau galw heibio ar draws y naw lleoliad, gyda'r niferoedd mwyaf yn Nhredegar Newydd a Nelson. Roedd pawb a fynychodd wedi ystyried y wybodaeth a chymryd rhan yn y trafodaethau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd copi o'r arolwg i'w lenwi. Fodd bynnag, roedd cyfansoddiad demograffig y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys mwy o'r grwpiau oedran hŷn, fodd bynnag, roedd trawstoriad da o ddynion a menywod wedi mynychu'r sesiynau.

Tabl 1: Sesiynau Wyneb yn Wyneb

Dyddiad ac amser	Lleoliad	Mynychwyr
26/11/18 (10am–1pm)	Llyfrgell Rhymni	7
27/11/18 (2pm–5.45pm)	Llyfrgell Bargod	16
29/11/18 (2pm–6pm)	Llyfrgell Caerffili	7
30/11/18 (10.30am–1.30pm)	Tredegar Newydd, Canolfan y Rhosyn Gwyn	23
3/12/18 (10.30am–2.30pm)	Palas Rhisga	14
6/12/18 (10am–12.30pm)	Llyfrgell Ystrad Mynach	11
11/12/18 (10.30am–1.30pm)	Tabernacl Trecelyn	8
12/12/18 (3pm–6pm)	Llyfrgell Nelson	20
13/12/18 (10.30am–2.30pm)	Llyfrgell Coed Duon	15

Arolwg

Datblygwyd holiadur byr penagored i geisio barn ar y cynnig cyllideb drafft. Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn **Atodiad 1**.

Gofynnodd yr holiadur i'r ymatebwyr roi eu barn ar y cynigion arbedion a amlinellwyd, gan nodi a ydynt yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf ag unrhyw un o'r toriadau a restrir ac i roi rhesymau dros eu barn. Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddarparu unrhyw syniadau a allai fod ganddynt ynghylch sut y gallwn gyfyngu ar effaith unrhyw un neu ragor o'r cynigion hyn ar ein cymunedau.

Yna, gofynnodd yr holiadur i'r ymatebwyr nodi a ydynt yn teimlo y bydd toriadau cyllideb mewn maes penodol yn effeithio arnynt fel unigolyn (yn gadarnhaol neu'n

negyddol) oherwydd eu tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion.

Gan edrych ymlaen at 2020 a thu hwnt, fe wnaeth yr holiadur ysgogi'r ymatebwyr i awgrymu meysydd gwariant y gall gael eu lleihau, eu dileu neu le y gellid codi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Cafodd yr arolwg a'r wybodaeth ymgynghori ategol (cynigion drafft a'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer pob cynnig) eu cynnwys ar wefan CBSC yn ystod y cyfnod ymgynghori (19 Tachwedd 2018 tan 11 Ionawr 2019) gyda baner amlwg ar y dudalen flaen a dolen uniongyrchol i'r arolwg.

Tynnwyd sylw at fanylion y cynigion cyllideb drafft ar dudalen flaen rhifyn mis Rhagfyr 2018 o gylchlythyr y Cyngor, "Newslin", a chynnwys rhagor o wybodaeth a'r holiadur yng nghanol y cyhoeddiad. Mae "Newslin" yn cael ei ddosbarthu i bob cartref yn y fwrdeistref sirol.

Rhannwyd yr arolwg hefyd ag ystod eang o randdeiliaid a grwpiau allweddol (fel yr amlinellir yn **Atodiad 2**) trwy e-bost a/neu mewn fformat wedi argraffu fel y bo'n briodol.

Cyfarfod y "Panel Safbwynt"

Ar ddydd Mercher 28 Tachwedd 2018, mynychodd 37 o drigolion o bob rhan o'r fwrdeistref sirol gyfarfod am 6pm yn Nhŷ Penallta. Roedd y grwpiau a gynrychiolwyd yn cynnwys Panel Safbwynt Bwrdeistref Sirol Caerffili, Rhwydwaith Rhieni Caerffili, Fforwm 50+ Caerffili a'r gymuned siaradwyr Gymraeg drwy Fenter Iaith Caerffili. O'r rhain, roedd 23 yn ddynion ac 14 yn fenywod.

Yn ogystal, mynychwyd y cyfarfod gan 15 aelod o Fforwm Ieuenctid Caerffili, rhwng 12 oed a 24 oed. O'r rhain, roedd 3 yn fechgyn a 12 yn ferched.

Cyn y cyfarfod, rhoddwyd manylion am y cynigion i'r mynychwyr ac, wrth iddynt gyrraedd, cawsant eu croesawu gan y Cynghorydd David Poole, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ar ôl gwrandao ar gyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn Siambr y Cyngor, rhannwyd y rhai a oedd yn bresennol yn grwpiau llai lle gwahoddwyd hwy i drafod y cynigion drafft yn fanylach.

Roedd y sesiynau trafod yn canolbwyntio ar nodi sut roedd y rhai a fynychodd yn teimlo y gallai effaith y cynigion fod yn gyfyngedig iddynt hwy fel unigolion ac ar eu cymunedau. Yna, symudodd y drafodaeth i ganfod awgrymiadau ar gyfer meysydd gwariant y gellid eu lleihau, eu tynnu, neu y gellid codi tâl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth wrth edrych ymlaen at 2020. Roedd y pynciau trafod yn adlewyrchu'n agos yr holiadur a gynhwyswyd yn yr arolwg ond yn caniatáu trafodaeth a dadl fanylach o'r opsiynau a nodwyd.

Cynhaliwyd un grŵp trwy gyfrwng y Gymraeg (roedd hyn yn cynnwys 3 oedolyn a 3 pherson ifanc) a threfnwyd grŵp arall gan y Gwasanaeth Ieuencid i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Drwy gydol y drafodaeth, roedd uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet ar gael i egluro'r cynigion drafft a darparu cyddestun lle bo angen.

Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Ychwanegol

Yn ogystal â'r ohebiaeth ysgrifenedig gyda rhanddeiliaid a nodwyd uchod, cynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb ychwanegol yn y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol ar 5 Rhagfyr (Gweler **Atodiad 5**). Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r undebau llafur a chynhaliwyd Cyfarfodydd Arbennig y Pwyllgorau Craffu canlynol:

- Pwyllgor **Polisi ac Adnoddau** Arbennig – dydd Llun 3 Rhagfyr 2018
- Pwyllgor **Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** Arbennig – dydd Iau 6 Rhagfyr 2018
- Pwyllgor **Addysg Gydol Oes** Arbennig – dydd Llun 17 Rhagfyr 2018
- Pwyllgor **Adfywio a'r Amgylchedd** Arbennig – dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2018


Cofnodir manylion y trafodaethau hyn y tu allan i'r adroddiad hwn ac maent ar gael ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk.

Ymatebion

Cyfanswm yr ymatebion a ddaeth i law ar gyfer yr arolwg oedd **708** (cwblhawyd 2 yn Gymraeg). Roedd 94% o'r ymatebwyr yn drigolion y fwrdeistref sirol ac, fel y dangosir ym **Map 1**, roedd dosbarthiad daearyddol da ar draws yr ardal. Roedd 43% o'r ymatebwyr yn ddynion, tra nododd 22% fod ganddynt anabledd. Mae proffil ymatebwyr llawn i'w weld yn **Atodiad 3**. Mae crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law drwy'r arolwg i'w gweld yn **Atodiad 4**.

Map 1: Dosbarthiad cod post o ymatebwyr yr arolwg (n=559)

MTFP 2019–20 Ymatebion i'r arolwg yn ôl cod post



© Crown Copyright. All rights reserved. Caerphilly County Borough Council, 100025372, 2018
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, 10025372, 2018

Daeth 19 o ymatebion pellach i law gan drigolion drwy e-bost, llythyr a thrwy wefan y Cyngor. Yn ogystal, daeth ymatebion ysgrifenedig i law gan y cynrychiolwyr etholedig/grwpiau/mudiadau canlynol:

- Eglwys Agape
- Barnardo's, Bargod (parthed Canolfan Gymunedol Phillipstown)
- Plaid Lafur Ward Bedwas, Tretomos a Machen
- Y Cynghorydd K. Etheridge
- Y Cynghorydd R. Gough
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Canolfan Gymunedol Gelligaer
- Cyngor Cymuned Gelligaer
- Gerald Jones AS
- Hefin David AC
- Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant
- Cyngor Cymuned Nelson
- Cyngor Cymuned Pen-y-bryn
- Cyngor Cymuned Rhymni
- Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Tir-y-berth
- Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol (cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2018)
- Ymatebion rhanddeiliaid yn ymwneud â gwasanaethau bws â chymhorthdal (cyfnod estynedig)

Cynhwysir crynodeb llawn o'r ymatebion a ddaeth i law yn **Atodiad 5**.

Ceir trawsgrifiad o drafodaeth cyfarfod y Panel Safbwynt yn **Atodiad 6**.

Ceir detholiad o ymatebion drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn **Atodiad 7**.

Nid yw'r ymatebion a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Deisebau

Daeth nifer o ddeisebau i law, a chaiff eu cyflwyno a'u hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r ymgynghoriad:

1. Canolfan Gymunedol Pen-y-bryn – Deiseb yn erbyn toriadau arfaethedig CBSC ynglŷn â thalu cyflogau Gofalwr.
2. Cyngor Cymuned Gelligaer – Deiseb mewn perthynas â'r cynnig i roi'r gorau i'r Gwasanaeth Warden Diogelwch Cymunedol ledled y fwrdeistref yn Ymgynghoriad Cyllideb CBSC.
3. Cyngor Cymuned Gelligaer – Deiseb mewn perthynas â'r cynnig i gau Safle Amwynder Dinesig Penallta yn Ymgynghoriad Cyllideb CBSC 2019/20.
4. Y Cynghorydd Lyndon Binding – Deiseb yn erbyn tynnu'r arian ar gyfer Parc Sblasio y Plant.
5. Y Cynghorydd Eluned Stenner – Deiseb yn erbyn cau Canolfan Gymunedol Phillipstown.

Canfyddiadau a Themâu Allweddol

Cyfeiriodd nifer fawr o sylwadau a ddaeth i law at yr ymchwiliad cyfredol sy'n ymwneud â thâl yr uwch swyddogion. Nodwyd y sylwadau hyn, ac fe'u cynhwysir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn, ond nid ydynt o fewn cylch gorchwyl yr ymgynghoriad. Codwyd nifer o faterion eraill sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor, sef:

- Nifer y Cynghorwyr a materion taliadau/treuliau'r Cynghorwyr
- Taliadau presgripsiwn, tocynnau bws am ddim a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg
- Blodau canol y dref ac arddangosfeydd tân gwyllt annibynnol

Adlewyrchwyd y themâu allweddol sy'n deillio o'r arolwg mewn ymatebion o ffynonellau eraill ac, o'r herwydd, mae'r themâu allweddol a amlygir isod yn adlewyrchu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac nid dim ond y rhai o'r arolwg.


Cynnydd Dreth y Cyngor

O ran y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddewis o 4 opsiwn:

1. Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor (6.95%) a fyddai'n golygu cynnydd o £1.41 yr wythnos ar gyfer eiddo Band D
2. Rwy'n cefnogi cynnydd is yn Nhreth y Cyngor. (Byddai pob gostyngiad o 1% o'r 6.95% arfaethedig yn golygu gorfod dod o hyd i £496,000 yn fwy o arbedion pellach.)
3. Rwy'n cefnogi cynnydd mwy yn Nhreth y Cyngor. (Byddai pob cynnydd o 1% o'r 6.95% arfaethedig yn golygu gorfod dod o hyd i £496,000 yn llai o arbedion pellach.)
4. Nid wyf yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor ac yn deall y byddai hyn yn golygu gorfod dod o hyd i arbedion pellach i fantoli'r gyllideb.

Fel yr amlygwyd yng **Ngraff 1**, roedd 34% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid dim cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Roedd cyfran debyg (33%) yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig o 6.95% yn Nhreth y Cyngor, tra bod 11% yn nodi y byddent yn barod i gefnogi cynnydd mwy fyth.

Graff 1: Dewis ar gyfer Cynnydd Treth y Cyngor (n=668)



Amlygodd dadansoddiad o'r ymatebion testun rai rhesymau y tu ôl i'r dewisiadau ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a roddwyd. Ar gyfer y rhai nad oeddent yn cefnogi unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor, ffactor allweddol oedd annhegwch sefyllfa "talu mwy, derbyn llai" lle, er gwaethaf cynnydd yn Nhreth y Cyngor, gellir darparu llai o wasanaethau. Cyfeiriodd nifer hefyd at yr angen i arbed arian mewn ffyrdd eraill (mwy o effeithlonrwydd a llai o wastraff, gostyngiad mewn cyflogau uwch reolwyr).

O'r rhai a oedd yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor, nododd rhai eu bod wedi gwneud hynny o'u hanfodd, tra bod eraill yn nodi eu bod yn deall yr angen am gynnydd o'r fath. Un rheswm allweddol dros gefnogi cynnydd oedd helpu sicrhau y gellid cynnal gwasanaethau allweddol i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned.

Barn ar y cynigion i sicrhau arbedion

Er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn gytbwys, roedd anghytundeb cryf gyda nifer o feysydd allweddol o fewn y cynigion i sicrhau arbedion:

- Darparu Gwasanaeth Pryd ar Glud i gleientiaid Adran 117 yn unig (Effaith Uchel).

Gydag ond ychydig o eithriadau, roedd teimladau cryf y dylid cadw'r gwasanaeth hwn ac y byddai dileu'r gwasanaeth hwn yn effeithio ar sector o'r gymuned sydd mwyaf bregus. Roedd llawer o'r farn nad oes dewis arall ar gael a bod y gwasanaeth yn darparu mwy na dim ond pryd poeth ar gyfer cleientiaid.

- Rheoli Gwastraff – Cau 2 Safle Amwynder Dinesig ym Mhenallta ac Aberbargod (Effaith Ganolog).

Codwyd pryderon penodol ynghylch yr effaith ar lendid yr ardal leol ac, yn benodol, o ran yr effaith ar dipio anghyfreithlon. Codwyd cwestiynau am ddewis y safleoedd arfaethedig, yn arbennig y safle ym Mhenallta, gan fod y safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn lleoliadau da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y trigolion hynny a ymatebodd i'r arolwg.

- Canolfannau Cymunedol – lleihau'r holl gymorth Gofalwyr ar draws yr holl Ganolfannau o fis Hydref 2019 (Effaith Uchel).

Er bod nifer o ymatebwyr yn anghytuno â chau Canolfannau Cymunedol penodol, roedd mwy o bryder ynglŷn ag effaith eang dileu cyllid ar gyfer cymorth gofalwyr ar draws pob canolfan. Ystyrir Canolfannau Cymunedol yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol, a theimlwyd y dylid annog eu defnydd.

Materion eraill o bryder a godwyd gan nifer o ymatebwyr oedd:

- Rhoi'r gorau i Wasanaeth y Warden Diogelwch Cymunedol – Dileu'r Gwasanaeth (Uchel)

Roedd rhai safbwyntiau cymysg ar ddarparu wardeiniaid diogelwch cymunedol. Er bod rhai yn gadarn o blaid cadw'r rolau hyn ac yn pryderu am yr effaith ar ddiogelwch y gymuned leol, teimlai nifer y dylai diogelwch cymunedol fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Heddlu neu fynegi nad oeddent erioed wedi gweld Warden Diogelwch Cymunedol yn eu hardal.

- Cynnal a Chadw Priffyrdd – gwahanol gyllidebau

Roedd y sylwadau'n ymwneud â'r cynnydd posibl mewn difrod i gerbydau a chostau uwch a allai arwain at rwydwaith ffyrdd a gynhelir yn wael yn y tymor hwy.

- Rheoli Gwastraff

Teimlai llawer fod lefelau llai o ran glanhau eisoes wedi arwain at ddirywiad yng nghanol trefi a chymunedau lleol ac na ddylid lleihau hyn ymhellach. Nid oedd cefnogaeth o ran cyflwyno ffioedd trin llygod mawr gan y teimlid y byddai hyn yn atal y defnydd o'r gwasanaeth, yn gwaethygu'r broblem ac ni fyddai'n ennill incwm mawr.

- Cau pob un o'r 5 Cyfleuster Cyhoeddus – Cau toiledau cyhoeddus ym mhob tref (Uchel)

Roedd sylwadau'n ymwneud â'r angen i gynnal darpariaeth yng nghanol trefi ac mewn canolfannau trafndiaeth gan y teimlid y byddai'r rhai sydd eu hangen fwyaf yn cael eu hannog i beidio ag ymweld â chanol trefi lleol. Cyfeiriwyd at ddulliau eraill o ddarparu (e.e. defnyddio busnesau preifat) gan ychydig o ymatebwyr, felly hefyd yr angen i ystyried y cynnig hwn yng ngoleuni'r Strategaeth Toiledau Lleol.

- Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfeiriodd nifer o sylwadau at yr angen i amddiffyn y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas a theimlai y byddai toriadau i wasanaethau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael effaith fawr ar rai sectorau yn ein cymunedau.

- Mewn perthynas â thoriadau i'r Sector Gwirfoddol

Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw cyflwyno ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau yn effeithio ar ansawdd a lefel y gwasanaeth a dderbynnir. Awgrymodd nifer o sylwadau fod angen cynyddu'r defnydd o ddarparwyr yn y sector gwirfoddol i lenwi'r bylchau mewn gwasanaethau na ellir eu darparu gan y Cyngor mwyach.

- Digwyddiadau

Roedd barn gymysg yn ymwneud â digwyddiadau. Er bod rhai yn teimlo eu bod yn annog twristiaeth, roedd eraill yn teimlo eu bod yn ddefnydd gwael o adnoddau.

- Trafnidiaeth

Teimlodd rhai y gallai ddileu llwybrau bysiau a chynyddu taliadau am ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus fod yn wrthgynhyrchol ar adeg pan anogir trigolion i symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir.

- Ysgolion ac Addysg

Yn ôl nifer o bobl, byddai gostyngiad mewn cyllid ar gyfer ysgolion ac addysg yn niweidiol i bobl ifanc a theimlwyd y byddai'r toriadau arfaethedig hyn yn cael goblygiadau tymor hwy i'r gymuned.

- Llyfrgelloedd

Mae rhai yn ystyried llyfrgelloedd yn wasanaeth allweddol a dylid gwneud defnydd llawn o adeiladau llyfrgelloedd, tra bod eraill yn teimlo y gellid codi tâl am rai gwasanaethau llyfrgell a gellid cau canghennau llai.

Lleihau'r Effaith

Y grwpiau a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a fyddai'n cael eu heffeithio fwy gan y cynigion oedd pobl hŷn, pobl iau a'r rhai ag anabledau. Nododd nifer o ymatebwyr effaith gronnus yr arbedion ar y sectorau bregus hyn o'r gymuned.

Nodwyd hefyd gan rai ymatebwyr y gallai'r rhai sydd mewn gwaith ond ar incwm isel fod dan anfantais anghymesur ac y byddai rhai cymunedau daearyddol yn teimlo'r effaith gronnus yn fwy nag eraill.

Roedd awgrymiadau ar gyfer lleihau effaith yr arbedion yn cynnwys awgrymiadau i beidio â chael gwared ar rai gwasanaethau o gwbl, gan gyfeirio'n arbennig at y gwasanaethau hynny a amlygwyd yn yr adran flaenorol, a chanfod ffyrdd o arbed arian mewn mannau eraill trwy well effeithlonrwydd a llai o wastraff.

Cyfeiriodd nifer o sylwadau at arbedion tymor byr yn cael effaith ehangach a thymor hwy ar wasanaethau eraill, a allai yn eu tro arwain at faich ariannol ychwanegol ar y Cyngor ac effeithio ar wasanaethau eraill megis y gwasanaeth iechyd a'r Heddlu. Er enghraifft, teimlwyd y gallai dileu'r gwasanaeth Pryd ar Glud gael goblygiadau ar ofalyddion, darpariaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill a'r gwasanaeth iechyd. Gallai cau Safleoedd Amwynder Dinesig gael goblygiadau ar dipio anghyfreithlon a chynyddu pwysau ar wasanaethau glanhau.

Edrych ymlaen at 2020 a'r tu hwnt

Gan edrych ymlaen at 2020 a'r tu hwnt, gofynnwyd am awgrymiadau am feysydd gwariant y gellid eu lleihau, eu dileu yn gyfan gwbl neu y gellid codi tâl amdanynt.

Lleihau gwariant ar / Dileu gwariant yn gyfan gwbl ar

Roedd ystod eang o ymatebion mewn perthynas â sut y gallai'r Cyngor leihau gwariant neu awgrymiadau ar gyfer meysydd y gellid eu dileu'n gyfan gwbl gyda rhai'n awgrymu y dylid torri'r holl wasanaethau nad ydynt yn hanfodol tra bod eraill yn nodi na ddylid torri unrhyw wasanaethau.

Roedd llawer o sylwadau yn ymwneud â lleihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd – e.e. lleihau gwariant corfforaethol ar arlwy, cerbydau. Awgrymodd nifer adolygiad o strwythurau rheoli ac edrych ar gostau sy'n gysylltiedig â staffio.

Adeiladau – awgrymodd nifer y dylai nifer adeiladau'r Cyngor gael eu lleihau er mwyn arbed arian a bod yr adeiladau hynny sy'n parhau yn cael eu defnyddio'n llawn ac y gellid eu defnyddio fel ffynhonnell incwm trwy logi a rhentu.

Codi tâl am

Roedd llawer o'r sylwadau o dan yr adran hon yn ymwneud â chynhyrchu incwm trwy fwy o waith gorfodi a thâl cosb am sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon a pharcio ceir yn anghyfreithlon.

Lle nad yw eisoes wedi'i nodi uchod, mae meysydd eraill y teimlir y gellir codi tâl amdanynt yn cynnwys:

- Prydau bwyd staff
- Toiledau Cyhoeddus
- Pryd ar Glud
- Gwastraff Swmpus / Gwastraff yr Ardd (barn gymysg)

Teimlai rhai fod cynnydd yn Nhref y Cyngor yn fwy priodol – yn hytrach na chyflwyno nifer o daliadau bach mewn mannau eraill.